

POLISI IAITH GYMRAEG COMISIWN Y GYFRAITH CYMRU A LLOEGR

CYNNWYS

Rhif y Dudalen

2	Cyflwyniad
2	Ynghylch Comisiwn y Gyfraith
3	Ynghylch y polisi yma
4	Cynllunio a darparu gwasanaethau
4	Hunaniaeth a phresenoldeb corfforaethol
5	Datblygu polisi
5	Gohebiaeth a chyswllt ffôn
6	Digwyddiadau
7	Cyhoeddiadau
7	Penodi a hyfforddi
7	Trydydd partïon
7	Trefniadau gweinyddol
8	Monitro
9	Atodiad A - Canllawiau ar sut i sicrhau gwasanaethau cyfieithu
10	Atodiad B - Y Broses cyfieithu Cymraeg (cyhoeddiadau)
11	Atodiad C - System gategoreiddio ar gyfer cyhoeddi dogfennau
13	Atodiad D - Cynllun gweithredu
22	Atodiad E - Fframwaith yr asesiad o effaith ar yr iaith Gymraeg (WLIA)

POLISI IAITH GYMRAEG COMISIWN Y GYFRAITH CYMRU A LLOEGR

CYFLWYNIAD

Ynghylch Comisiwn y Gyfraith

- 1.1 Mae Comisiwn y Gyfraith (y "Comisiwn") yn gorff statudol annibynnol a grëwyd i gadw golwg ar gyfraith Cymru a Lloegr ac i argymhell diwygio lle bo'i angen.¹Yn dilyn proses o ymchwilio ac ymgynghori, mae'r Comisiwn yn gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ynghylch diwygio'r gyfraith. Ei amcanion:
 - (1) sicrhau bod y gyfraith mor deg, modern, syml a chost effeithiol ag sy'n bosibl
 - (2) gwneud gwaith ymchwil ac ymgynghoriadau er mwyn gwneud argymhellion systematig i gael eu hystyried gan y Senedd, a
 - (3) chodeiddio'r gyfraith, cael gwared ag anghysonderau, dileu deddfau darfodedig a dianghenraid a gostwng nifer y statudau gwahanol.
- 1.2 Mae swyddfeydd y Comisiwn yng nghanol Llundain. Strwythur y Comisiwn yw Cadeirydd, pedwar Comisiynydd y Gyfraith, Prif Weithredwr a nifer o staff parhaol.
- 1.3 Mae'r Comisiwn yn gweithredu'r mwyafrif o'i brosiectau diwygio yn rhan o'i gylch o raglenni diwygio'r gyfraith, y mae pob un yn para am dair blynedd. Gellir gwneud prosiectau a gyfeirir at y Comisiwn drwy ddulliau eraill hefyd. Gweithredir prosiectau'r Comisiwn gan bedwar tîm cyfreithiol, y mae pob un ohonynt yn adolygu meysydd penodol o'r gyfraith, ynghyd â'r tîm Diddymu Cyfraith Statud.
- 1.4 Gallai gwahanol brosiectau'r Comisiwn fod â gwahanol gwmpas awdurdodaethol. Felly, gallai prosiectau gael effaith ar y gyfraith sy'n gymwys i unrhyw un o'r rhain:
 - (1) Cymru a Lloegr;
 - (2) Cymru neu Loegr yn unig;
 - (3) Cymru, Lloegr a'r Alban (wrth weithio mewn partneriaeth â Chomisiwn y Gyfraith yr Alban);
 - (4) Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (wrth weithio mewn partneriaeth â Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon); a/neu
 - (5) Y Deyrnas Unedig (wrth weithio mewn partneriaeth gyda Chomisiwn y Gyfraith yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon).
- 1.5 Cyhoeddiadau'r Comisiwn yn bennaf yw papurau ymgynghori, adroddiadau a dogfennau corfforaethol (adroddiadau blynyddol a rhaglenni diwygio'r gyfraith). Paratoir crynodebau o bapurau ymgynghori ac adroddiadau hefyd.

¹ Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965.

- 1.6 Oherwydd natur arbenigol, a thechnegol yn aml iawn, nifer o'r dogfennau llawn, eu cynulleidfa darged fel arfer yw unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol. Fodd bynnag, anogir aelodau sectorau penodol o'r cyhoedd neu'r cyhoedd yn gyffredinol i ddarllen crynodebau er mwyn sicrhau'r posibilrwydd gorau o ymgysylltiad.
- 1.7 Mae'r Comisiwn yn trefnu digwyddiadau cyhoeddus a chaeedig, yng Nghymru a Lloegr, yn rhan o'i waith.
- 1.8 Mae'r Comisiwn wedi'i ymrwymo i drin yn hollol gyfartal yr holl brosiectau a gomisiynir yng Nghymru a'r prosiectau hynny sy'n debygol o fod o ddiddordeb arwyddocaol i'r cyhoedd yng Nghymru.

Ynghylch y polisi yma

- 1.9 Mae'r Comisiwn yn atebol i'r Cynllun Iaith Gymraeg a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n gorff sydd wedi'i noddi gan y Weinyddiaeth honno. Daeth y Comisiwn yn llofnodwr i'r cynllun hwn cyn iddo gael ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Fawrth 24 2010.²
- 1.10 Yn unol ag adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu'r egwyddor felly y bydd yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus yng Nghymru.
- 1.11 Mae'r busnes cyhoeddus a weithredir gan y Comisiwn yn wahanol mewn rhai agweddau i hwnnw a wneir gan yr Weinyddiaeth Gyfiawnder. Felly, er bod cynllun y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gymwys i bob agwedd o waith y Comisiwn yn gyffredinol, mae'r Comisiwn wedi penderfynu nad yw efallai'n ddigon penodol mewn rhai agweddau i waith y Comisiwn i sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb yn cael ei gweithredu drwy ddarpariaeth gwasanaethau'r Comisiwn i'r cyhoedd yng Nghymru.³
- 1.12 Bydd y Comisiwn yn parhau'n atebol i Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder i bwrpasau monitro, adrodd a chydymffurfiaid cyhyd ag y bo'n llofnodwr i'r cynllun hwnnw.
- 1.13 Nawr mae'r polisi'n nodi sut y bydd yr egwyddor cydraddoldeb yn cael ei gweithredu, yn benodol mewn perthynas â darpariaeth y Comisiwn o'i wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, ac o fewn Cynllun Iaith Gymraeg troswaol yr Weinyddiaeth Gyfiawnder.⁴
- 1.14 Enw'r Comisiwn yn Saesneg yw *the Law Commission*.

² Gwelwch Gynllun Iaith Gymraeg yr Weinyddiaeth Gyfiawnder 24 Mawrth 2010 Atodiad A.

³ I bwrpasau adrannau 5 a 21 y Ddeddf mae 'y cyhoedd' yn golygu'r bobl hynny y mae sefydliad wedi ymwneud â nhw wrth weithredu ei swyddogaethau. Nid yw'n cynnwys ymwneud â phobl sy'n gweithredu mewn rôl sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth.

⁴ Cynhyrchwyd y polisi yma o ganlyniad i adolygiad cynhwysfawr a wnaed ym misoedd Ebrill/Mai 2015 o ddarpariaeth y Comisiwn o wasanaethau o'r fath a'u heffaith ar y cyhoedd yng Nghymru.

- 1.15 Wrth baratoi'r polisi yma rhoddwyd ystyriaeth i'r cyngor a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adrannau 3 a 9 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.⁵

CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

- 1.16 Mae'r Comisiwn wedi'i ymrwymo'n gyfan gwbl i'r egwyddor y dylid trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sail cydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd yr ymrwymiad yma wedi'i gynnwys yng nghyhoeddiad cynlluniau corfforaethol a busnes y Comisiwn a'i adroddiadau blynyddol.
- 1.17 Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod aelodau'r cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, bod eu galluogi i ddefnyddio eu dewis iaith yn arfer da a bod gwadu'r hawl honno'n gallu rhoi aelodau o'r cyhoedd dan anfantais.
- 1.18 Pan fydd y Comisiwn yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, bydd yn darparu gwasanaeth o'r un ansawdd ag y bydd wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn y Saesneg.

Presenoldeb a hunaniaeth gorfforaethol

- 1.19 Bydd y Comisiwn yn cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog ar bob gohebiaeth, dogfen, cyflwyniad, arwydd a chyhoeddiad (yn cynnwys unrhyw gylchlythyrau neu daflenni newyddion) sydd wedi'u llunio i gael eu defnyddio yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ffurf Gymraeg enw'r Comisiwn.
- 1.20 Bydd yr holl hysbysiadau cyhoeddus a deunydd cyhoeddusrwydd y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio'n benodol yng Nghymru, er mwyn cyfathrebu gyda'r cyhoedd, yn cael eu cyhoeddi'n gwbl ddwyieithog. Dyma fydd trefn yr ieithoedd a gyhoeddir ar ddeunydd sydd i gael ei ddefnyddio'n benodol yng Nghymru: Y Gymraeg wedi'i dilyn gan y Saesneg.
- 1.21 Bydd gan wefan y Comisiwn adran wedi'i llunio er budd y defnyddwyr sy'n Gymry Cymraeg (gyda'r testun i gyd yn y Gymraeg) yn cynnwys manylion craidd ei waith a manylion ei holl brosiectau a allai effeithio ar y gyfraith sy'n gymwys i Gymru. Bydd hefyd yn cynnwys dolenni at fersiynau ar-lein o'n cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd modd cyrraedd y dudalen o'r sgrin hafan.
- 1.22 Wrth lunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau sy'n bodoli'n barod, bydd y Comisiwn yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog *Comisiynydd y Gymraeg* ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â datblygu gwefannau.

⁵ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cynlluniau Iaith Gymraeg: Eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, 1996. Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 1 Ebrill 2012. Mae dyletswyddau'r Bwrdd wedi cael eu trosglwyddo i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.

- 1.23 Pan fydd y Comisiwn yn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg i gael ei ddosbarthu yng Nghymru a Lloegr drwy'r cyfryngau darlledu a'r wasg genedlaethol, bydd yn ystyried a yw'r ddyletswydd sydd arno i weithredu yn unol ag adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n gofyn i'r datganiad gael ei gyhoeddi yn y Saesneg a'r Gymraeg. Bydd datganiadau i'r wasg a gyflwynir i'r cyfryngau darlledu Cymraeg a'r wasg Gymraeg yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 1.24 Bydd y Comisiwn yn amcannu i ddatblygu ei bresenoldeb a'i hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog dros amser. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth i gynhyrchu bathodynau enw a chardiau busnes dwyieithog i'w defnyddio mewn digwyddiadau yng Nghymru a darparu'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol lle mae'r Comisiwn yn eu defnyddio i hybu ac adrodd ar ddigwyddiadau yng Nghymru.

Datblygu polisïau

- 1.25 Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod staff sy'n cymryd rhan yn y gwaith o lunio polisïau ac o baratoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth newydd, yn cymryd y polisi yma i ystyriaeth ynghyd â'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd y Comisiwn yn:
- (1) asesu canlyniadau ieithyddol y polisïau sy'n effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir i'r bobl yng Nghymru;
 - (2) sicrhau nad yw polisïau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod yn rhwystro pobl rhag hyrwyddo'r Gymraeg a'i defnyddio'n rhwydd;
 - (3) gweithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle yn unol ag adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 1.26 Mae fframwaith wedi ei ddatblygu i asesu'r goblygiadau i'r iaith Gymraeg wrth ffurfio polisïau a drafftio cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth newydd. Ymdrinnir â'r fframwaith yma yn Atodiad E.

Gohebiaeth a chyswllt ffôn

- 1.27 Bydd y Comisiwn yn cynnig yr hawl i aelodau'r cyhoedd ddewis pa iaith y maent yn ei defnyddio (Cymraeg neu Saesneg) wrth gyfathrebu ag o. Bydd y Comisiwn yn cofnodi dewis iaith ei gysylltiadau ac yn gweithredu'n unol â hynny.
- 1.28 Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru ar bapur pennawd dwyieithog, p'un a yw'r llythyr wedi'i ysgrifennu yn y Gymraeg ai peidio.
- 1.29 Bydd y llofnodion e-bost a ddefnyddir gan staff y Comisiwn wrth anfon unrhyw ohebiaeth ar yr e-bost at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog.
- 1.30 Lle derbynir gohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg bydd y Comisiwn yn ateb yn y Gymraeg. Bydd yr ateb yn cael ei anfon o fewn yr un cyfyngiadau amser ag y byddai ar gyfer unrhyw ohebiaeth arall.
- 1.31 Mae'r Comisiwn wedi'i leoli yng Nghanol Llundain ac mae ei gysylltiad ffôn uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn gyfyngedig.

- 1.32 Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn penodi ei staff mewn ffordd sy'n annog ceisiadau gan Gymry Cymraeg. Dim ond un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg sydd gan y Comisiwn ar hyn o bryd. Er hynny, bydd y Comisiwn yn ceisio darparu ateb i ymholiadau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, o fewn amser rhesymol, yn yr un ffordd.
- 1.33 Pan fydd rhywun yn ei ffonio ac eisiau siarad Cymraeg, bydd y Comisiwn yn cynnig yr opsiwn iddynt ysgrifennu at y Comisiwn yn y Gymraeg neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.
- 1.34 Mae'r Comisiwn yn defnyddio gwasanaeth ffôn canoledig yr Weinyddiaeth Gyfiawnder felly mae'n gyfyngedig yn ei allu i ddarparu negeseuon wedi recordio neu gyfarchiadau ffôn dwyieithog wedi eu personoli, ond bydd yn adolygu ei gallu i ddarparu gwasanaethau o'r fath os bydd unrhyw wasanaethau teleffoni newydd yn cael eu cyflwyno.

Digwyddiadau

- 1.35 Lle mae'r Comisiwn yn trefnu naill ai ddigwyddiadau caeedig neu gyhoeddus yng Nghymru bydd eu cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel uchod, a bydd croeso i bobl gyfrannu yn y naill iaith neu'r llall.
- 1.36 I helpu gyda chynllunio digwyddiadau, dylai pob hysbysiad amdanynt a gwahoddiad iddynt esbonio'n glir y croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd a dylent wahodd y rheiny sy'n bwriadu mynychu roi gwybod i Gomisiwn y Gyfraith ym mha iaith y maent yn bwriadu cyfrannu, o leiaf 14 diwrnod cyn dyddiad y digwyddiad.
- 1.37 Lle darperir hysbysiad am fwriad i gyfrannu yn y Gymraeg, yna bydd y Comisiwn yn darparu:
 - (1) gwasanaethau cyfieithu yn y digwyddiad; ac yn
 - (2) cyfieithu deunyddiau a baratoir gan y Comisiwn at ddefnydd y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad.
- 1.38 Dylai'r staff benderfynu ar ddull a ffurf y gwasanaethau cyfieithu sydd i gael eu darparu ar ôl ystyried y canllawiau yn Atodiad A.Ar ôl penderfynu a ddylid darparu gwasanaethau cyfieithu a/neu gyfieithu deunyddiau ai peidio, dylid nodi'r penderfyniad yn rhan o'r cofnod corfforaethol ar gyfer y prosiect.
- 1.39 Os na dderbynir hysbysiad am fwriad i gyfrannu yn yr iaith Gymraeg, yna bydd y Comisiwn yn gofyn i'w staff ystyried y canllawiau sydd i'w cael yn Atodiad A i benderfynu a fyddai'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i gynnig gwasanaethau cyfieithu a/neu gyfieithu deunyddiau o dan yr amgylchiadau beth bynnag.
- 1.40 Pan fydd y Comisiwn yn trefnu digwyddiadau cyhoeddus yn Lloegr (ac yn eu cyhoeddi nhw'n benodol yng Nghymru) lle nad oes digwyddiad cyfatebol i gael ei gynnal yng Nghymru, ac y byddai'n ofynnol felly i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru adael Cymru i gael y gwasanaeth yma, yna bydd eu deunyddiau hysbysebu yng Nghymru'n ddwyieithog ac yn esbonio'n glir bod croeso i bobl gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd.

- 1.41 Os bydd y Comisiwn yn derbyn mynegiad bod rhywun eisiau cyfrannu at ddigwyddiad fel y disgrifiwyd yn 1.40 yn yr iaith Gymraeg, yna bydd gofyn i staff y Comisiwn ystyried y canllawiau yn Atodiad A i benderfynu a fyddai'n briodol ac yn rhesymol ymarferol o dan yr amgylchiadau i ddarparu un o'r canlynol, neu'r ddau opsiwn canlynol:

- (1) gwasanaethau cyfieithu yn y digwyddiad; a
- (2) chyfieithu deunyddiau a baratoir gan y Comisiwn at ddefnydd y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad.

Cyhoeddiadau

- 1.42 I benderfynu a ddylid cyfieithu unrhyw rai o gyhoeddiadau Comisiwn y Gyfraith i'r Gymraeg, a'r fformat y dylai'r cyhoeddiad a gyfieithwyd fod ynddo, byddwn yn defnyddio system gategoreiddio. Maer system hon i'w gweld yn Atodiad B. Dylid cadw cofnod, yn rhan o'r cofnod corfforaethol ar gyfer y prosiect, sy'n nodi'r categori a aseiniwyd, y penderfyniad i gyfieithu neu beidio a'r penderfyniad naill ai i gynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu i gynhyrchu fersiwn dwyieithog o bob dogfen.
- 1.43 Dylai'r fersiwn Cymraeg neu ddwyieithog o'r cyhoeddiad terfynol fod ar gael o fewn yr un cyfnod amser ag y byddai'r fersiwn Saesneg.

Penodi a hyfforddi

- 1.44 Am fod y Comisiwn wedi'i leoli yn Llundain, mae'n penodi'n genedlaethol o blith y di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg. Mae'r Comisiwn yn defnyddio plattform penodi canoledig y gwasanaeth sifil felly mae'n gyfyngedig yn ei allu i osod hysbysebion penodi dwyieithog, ond bydd yn adolygu ei allu i ddarparu gwasanaethau o'r fath os bydd unrhyw blatfformau newydd yn cael eu cyflwyno neu os bydd plattform o'r fath yn cael ei ddiweddarau.
- 1.45 Er hynny, wrth hysbysebu am Gomisiynwyr newydd ac aelodau newydd o staff, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi deunyddiau hyrwyddo dwyieithog ychwanegol os byddwn yn gweld bod y rôl y penodir ar ei chyfer yn debygol o ofyn am gyfranogaeth uniongyrchol gyda phrosiectau penodol Gymraeg.
- 1.46 Bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi deunyddiau hyrwyddo dwyieithog yn flynyddol yn rhan o'i ymgyrch reolaidd i benodi cynorthwyyr ymchwil.
- 1.47 Bydd y Comisiwn yn pennu unrhyw swyddi, yn cynnwys y rheiny sy'n ymwneud â chyfathrebiadau allanol, a allai godi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol, ac yn nodi pa lefel o allu sydd ei angen. Bydd hyn wedi'i adlewyrchu'n briodol mewn disgrifiadau swydd.
- 1.48 Mae'r broses ymgeisio a chyfweld ar gyfer swyddi yn y Comisiwn wedi ei phennu gan broses ymgeisio'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn berthnasol i hon hefyd.
- 1.49 Bydd y Comisiwn yn annog unrhyw aelod o staff sydd eisiau dysgu Cymraeg, gan ei gwneud hi'n fwy rhesymol ymarferol i'r Comisiwn ryngweithio gydag aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, i wneud hynny yng nghyd-destun eu hamcanion datblygiadol ac amcanion datblygiadol y Comisiwn.

Trydydd Partïon

- 1.50 Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod yr holl drefniadau a chontractau gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru'n gyson â thelerau'r polisi yma ac yn cael eu gweithredu'n unol â hynny.

Trefniadau gweinyddol

- 1.51 Mae'r Comisiwn yn elwa o ddefnyddio Uned Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac o'i gontractau gwasanaethau cyfieithu gyda darparwyr priodol. Mae'r ddau wasanaeth yma'n atebol i safonau ansawdd a pherfformiad sy'n cael eu gosod a'u monitro gan yr Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- 1.52 Wedi i'r polisi yma gael ei gymeradwyo bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi a bydd prif randdeiliaid y Comisiwn yng Nghymru'n cael eu hysbysu'n uniongyrchol. Bydd y Comisiwn yn darparu copi'au o'r polisi iaith Gymraeg yma i'r holl Gomisiynwyr ac i bob aelod o'r staff Bydd ar gael hefyd ar we-dudalen a safle mewnruwyd y Comisiwn.

Monitro

- 1.53 Mae cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu ar gyfer rhoi'r polisi ar waith, gan gynnwys amserlen o fesurau gweithredu, ac mae i'w gael yn Atodiad C.
- 1.54 Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn goruchwyllo gweithrediad y polisi yma a'r gwaith o'i fonitro. Bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn:
- (1) Adolygu gweithrediad y polisi yn unol â'r cynllun gweithredu ac yn rhoi gwybod yn flynyddol i'r Comisiynwyr am gynnydd;
 - (2) Adolygu'r cydymffurfiad â'r polisi'n flynyddol ac yn adrodd i'r Comisiynwyr yn flynyddol am gydymffurfiad; ac yn
 - (3) Ystyried unrhyw gwynion a dderbynir yn ymwneud â diffyg cydymffurfiad â'r polisi ac yn cymryd y camau gweithredu priodol lle bo rhaid i sicrhau cydymffurfiad;
- 1.55 Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl gwynion a dderbynir am ddiffyg cydymffurfiad â'r polisi ynghyd â chofnod o'r penderfyniad a wneir ac unrhyw gamau gweithredu a gymerir wedi i'r Prif Swyddog Gweithredol ystyried y gŵyn.
- 1.56 Bydd cyfrifoldeb gan y rheolwyr i gyd i weithredu a monitro'r polisi mewn perthynas â gwaith eu tîm.
- 1.57 Bydd cyfrifoldeb gan bob aelod o staff am wneud eu swyddogaethau yn unol â'r polisi yma.
- 1.58 Bydd y staff cyfredol i gyd yn derbyn arweiniad ar sut i gydymffurfio â'r polisi ac, wedi hyn, bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn yr un arweiniad yn rhan o'u cyflwyniad i'r Comisiwn. Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl hyfforddiant staff a roddir.

- 1.59 Yn nhrydedd blwyddyn gweithrediad y polisi, bydd y Comisiwn yn paratoi adroddiad gwerthuso sy'n gwerthuso ac yn asesu'r cynnydd yng ngweithrediad y polisi a'r cydymffurfriad ag o. Yn dilyn yr adroddiad yma, bydd y Comisiwn yn adolygu ac yn diwygio'r polisi fel y bo'n briodol.
- 1.60 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu Adroddiad Monitro Blyneddol i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd y Comisiwn yn cyfrannu at yr adroddiad hwnnw ac yn darparu gwybodaeth iddo fel y bo'r gofyn.
- 1.61 I unrhyw un sydd eisiau trafod gweithrediad y polisi yma, sydd eisiau cyflwyno cwyn am fethiant i gydymffurfio â'r polisi yma, ac sydd ag awgrymiadau am ei ddatblygu ymhellach, y prif bwynt cysylltu yw Pennaeth y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol.

APPENDIX A

CANLLAWIAU AR SUT I SICRHAU GWSANAETHAU CYFIEITHU

- A.1 O ran penderfynu a ddylid darparu gwasanaethau cyfieithu, neu pa ddull y dylid ei ddefnyddio ac ar ba ffurf, dylid gwneud y penderfyniadau yma ar ôl ymgynghori gyda'r bobl sy'n mynd i'r digwyddiad perthnasol.
- A.2 Dylid asesu a oes ystyriaethau arbennig sy'n gofyn am ddarparu cyfleusterau cyfieithu hyd yn oed os nad oes cyfranogwyr i ddigwyddiad sydd eisiau cyfrannu yn y Gymraeg neu os nad yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghymru ond nid oes digwyddiad cyfatebol yn mynd i gael ei gynnal yng Nghymru. Y rhesymau am hyn yw y gallai aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru neu o Gymru fynd i ddigwyddiadau fel yma beth bynnag ac mae'r Comisiwn yn cydnabod bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, bod eu galluogi i ddefnyddio eu dewis iaith yn arfer da a bod gwadu'r hawl honno'n gallu rhoi aelodau o'r cyhoedd dan anfantais.
- A.3 Mae'r ystyriaethau arbennig yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:
- (1) sefyllfa lle mae'r digwyddiad wedi'i anelu at y cyhoedd mewn lleoliad sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg;
 - (2) sefyllfa lle mae'r digwyddiad yn ymwneud â maes o ddiwygio'r gyfraith sydd o ddiddordeb arbennig i siaradwyr Cymraeg neu aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru.

ATODIAD B

Y BROSES CYFIEITHU CYMRAEG (CYHOEDDIADAU)

YSTYRIWCH A OES ANGEN I'R DDOGFEN (NEU'R CRYNODEB OHONI) GAEL EI CHYFIEITHU I'R GYMRAEG GAN DDEFNYDDIO'R SYSTEM GATEGOREIDDIO A DDARPERIR
(Rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad yma)

FERSIWN TERFYNOL Y DDOGFEN SYDD I GAEL EI CHYFIEITHU I GAEL EI GYTUNO'N FEWNOL.

Y RHEOLWR TÎM/CYFREITHIWR PROSIECT/CYNORTHWYDD YMCHWILIO I GYFLWYNO CAIS AM DDYFYNBRIS DRWY BIGWORD YN NODI'R GOFYNION AMSER AR GYFER Y CYFIEITHIAD, GAN GYNNWYS YR HOLL WYBODAETH BERTHNASOL AC YN NODI'R HOLL WASANAETHAU SY'N OFYNNOL E.E. PRAWFDDARLLEN/GWIRIO. GWELWCH YR ARWEINIAD I GYHOEDDIADAU COMISIWN Y GYFRAITH A'R CANLLAWIAU I DDEFNYDDWYR BIGWORD I GAEL RHAGOR O FANYLION. (15 diwrnod cyn cyhoeddi)

Y TÎM GWASANAETHAU CORFFORAETHOL I GYMERADWYO YMATEB Y DARPARWR A CHAIS I GAEL EI GYFLWYNO AM Y CYFIEITHIAD.

APPENDIX C

Y SYSTEM GATEGOREIDDIO AR GYFER CYHOEDDI DOGFENNAU

C.1 Mae'n orfodol defnyddio'r system gategoreiddio hon ar gyfer cyhoeddiadau swyddogol Comisiwn y Gyfraith, sy'n cynnwys: papurau cwmpasu, papurau am faterion, papurau ymgynghoriad, adroddiadau, asesiadau effaith ar gyfer yr adroddiadau hynny a'r holl gyhoeddiadau corfforaethol. Mae'n ddewisol ar gyfer dogfennau sydd wedi eu creu'n bennaf i bwrpasau mewnol, yn cynnwys: dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad ac asesiadau o effaith ar gyfer papurau cwmpasu, papurau am faterion a phapurau ymgynghori.

C.2 Wrth benderfynu a oes angen cyfieithu unrhyw gyhoeddiad gan Gomisiwn y Gyfraith, gofynnir i staff ateb y cwestiynau dilynol ynghylch y prif ystyriaethau.

Y Prif Ystyriaethau	Colofn A	Colofn B	Colofn C
At beth y defnyddir y ddogfen?	I gyfraith Cymru'n unig	I gyfraith Cymru a Lloegr	I gyfraith Lloegr yn unig
Pwy yw'r gynulleidfa darged?	Siaradwyr Cymraeg yn benodol neu aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru	Aelodau'r cyhoedd, neu sectorau o'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr (p'un a yw'r prosiect drwy'r Deyrnas Unedig i gyd neu wedi'i gyfyngu i Gymru, Lloegr a'r Alban, i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon neu i Gymru a Lloegr)	Aelodau'r cyhoedd yn Lloegr a/neu yr Alban a/neu Gogledd Iwerddon yn unig, neu unigolion arbennig sy'n cynrychioli meysydd penodol yn unig

C.3 Os yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau prif ystyriaeth i'w gael yng ngholofn A yna mae'n rhaid cyfieithu'r ddogfen.

C.4 Os yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau prif ystyriaeth i'w gael yng ngholofn B yna mae'r cwestiwn a oes angen cyfieithu'r ddogfen yn dibynnu ar yr atebion i'r cwestiynau ystyriaeth eilaidd.

C.5 Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn prif ystyriaeth i'w cael yng ngholofn C yna nid oes angen cyfieithu'r ddogfen.

Ystyriaethau eilaidd	Colofn A	Colofn B	Colofn C
Y pwnc	Maes hawdd ei ddeall o'r gyfraith sydd o ddiddordeb cyffredinol	Maes cymhleth o'r gyfraith sydd o ddiddordeb cyffredinol	Maes arbenigol neu dechnegol o'r gyfraith
Hyd y Ddogfen	Llai na 2,000 o eiriau	2,000-6,000 o eiriau	Mwy na 6,000 o eiriau

- C.6 Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn ystyriaeth eilaidd i'w gael yng ngholofn A, yna mae'n rhaid cyfieithu'r ddogfen.
- C.7 Os yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau ystyriaeth eilaidd i'w gael yng ngholofn B yna mae'n rhaid cyfieithu crynodeb gweithredol y ddogfen honno.
- C.8 Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn ystyriaeth eilaidd i'w gael yng ngholofn C, yna nid oes angen cyfieithu'r ddogfen.
- C.9 Lle mae crynodeb gweithredol dogfen wedi'i gyfieithu o dan y system yma, yna rhoddir ystyriaeth i gyfieithu'r ddogfen lawn os ceir cais yn gofyn am hynny.
- C.10 Os nad yw dogfen na'i chrynodeb gweithredol wedi eu cyfieithu o dan y polisi yma, rhoddir ystyriaeth i gyfieithu'r crynodeb gweithredol os ceir cais yn gofyn am hynny.
- C.11 I benderfynu a ddylid cynhyrchu dogfen yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, neu a ddylid ei chyfieithu fel dogfen ddwyieithog, dylid edrych yn bennaf ar hyd y ddogfen honno ac ystyried a fyddai cynhyrchu cyhoeddiad dwyieithog yn ei gwneud hi'n afresymol o hir ac felly'n llai hygyrch.
- C.12 Bydd pob dogfen a gyfieithir i'r Gymraeg o dan y system sgorio yma ar gael mewn ffurf electronig.

APPENDIX D

CYNLLUN GWEITHREDU

Y Cam Gweithredu	Y Dull Gweithredu	Erbyn pryd y dylid gweithredu/gan bwy
Y Comisiwn i wneud datganiad corfforaethol am ymrwymiad Comisiwn y Gyfraith i'r egwyddor bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus yng Nghymru.	Cyhoeddi'r Polisi Iaith Gymraeg yma, darparu datganiad i'r wasg unwaith mae'r polisi wedi'i gymeradwyo a rhaid rhoi gwybod i'r rhanddeiliaid uniongyrchol yng Nghymru.	04 Medi 2017
	Cyfeirio at y Polisi Iaith Gymraeg yma yng nghynllun busnes nesaf Comisiwn y Gyfraith	20 Gorffennaf 2017 (cwblhau)
	Cyfeirio at y Polisi Iaith Gymraeg yma yn Adroddiad Blynnyddol Comisiwn y Gyfraith.	Medi/Hydref 2017
	Darparu copiâu o'r polisi yma i'r holl Gomisiynwyr a holl aelodau'r staff, yn ogystal â sicrhau ei fod ar gael ar we-dudalen a safle mewnwyd y Comisiwn.	01 Medi 2017
	Bydd rhaglen hyfforddi staff yn cael ei datblygu fel bod yr holl staff cyfredol yn derbyn hyfforddiant ar sut i gydymffurfio â'r polisi yma a bydd yr holl aelodau newydd o staff yn derbyn yr un hyfforddiant yn rhan o'u cyflwyniad i'r Comisiwn.	01 Medi 2017

	Bydd y staff cyfredol yn derbyn hyfforddiant ar sut i gydymffurfio â'r polisi yma a bydd yr holl aelodau newydd o staff yn derbyn yr un hyfforddiant yn rhan o'u cyflwyniad i'r Comisiwn. Bydd cofnod yn cael ei gadw o'r holl hyfforddiant staff a roddir.	O 04 Medi 2017 a phan fo'i angen
Y Comisiwn i gyflwyno hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog pan fo'r hunaniaeth honno'n cael ei defnyddio yng Nghymru.	Darparu cardiau busnes dwyieithog sydd i gael eu defnyddio gan Gomisiynwyr a staff sy'n debygol o ddefnyddio'r rhain yng Nghymru.	01 Medi 2017 a phan fo'r angen
	Cynhyrchu bathodynau enw dwyieithog i gael eu defnyddio gan Gomisiynwyr a staff sy'n debygol o ddefnyddio'r rhain yng Nghymru.	O Fedi 04 2017 a phan fo'r angen yn codi
Yr holl hysbysiadau cyhoeddus a chyhoeddusrwydd y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio yng Nghymru i gael eu cynhyrchu'n gwbl ddwyieithog. Pan gânt eu cynhyrchu'n ddwyieithog, dyma fydd y drefn a ddefnyddir: Y Gymraeg, wedi'i ddilyn gan y Saesneg.	Wrth gynhyrchu posteri neu daflenni'n hysbysebu digwyddiad yng Nghymru, dylid cyflwyno'r rhain yn ddwyieithog yn y ffordd a ddisgrifiwyd.	O Fedi 04 2017 a phan fo'r angen yn codi
Wrth gynllunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau cyfredol, bydd y Comisiwn yn cymryd i ystyriaeth Safonau a Chanllawiau Meddalwedd Dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw arweiniad arall a gynhyrchir gan Gomisiynydd y Gymraeg.	Dylai'r staff i gyd ymgynghori ar y canllawiau a chanllawiau eraill pan wneir newidiadau i'r adrannau Cymraeg ar y wefan gyfredol.	O Fedi 04 2017 a phan fo'r angen yn codi
Pan fydd y Comisiwn yn cynhyrchu datganiad i'r wasg	Dylai'r rheolwr cyfathrebu gynhyrchu datganiadau i'r wasg a gyflwynir i'r wasg	O Fedi 04 2017 a phan fo'r angen yn codi

yng Nghymru a Lloegr drwy'r wasg genedlaethol a'r cyfryngau darlledu cenedlaethol, bydd yn ystyried a yw ei ddyletswydd i weithredu yn unol ag adran 7 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gofyn bod y datganiad yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd datganiadau i'r wasg a gyflwynir i'r cyfryngau darlledu Cymraeg a'r wasg Gymraeg yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Gymraeg ac i'r cyfryngau darlledu Cymraeg yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio'r gwasanaethau cyfieithu perthnasol.	
	Dylai'r rheolwrcyfathrebu gofnodi pob penderfyniad a wneir ynghylch cyfieithu neu beidio â chyfieithu datganiad i'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio gyda'i ddyletswydd i weithredu yn unol ag adran 7.	O Fedi 04 2017 a phan fo'r angen yn codi
Mae'r Comisiwn i sicrhau bod y staff sy'n cymryd rhan yn y gwaith o ffurfio polisi, a pharatoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth newydd, yn rhoi ystyriaeth i'r polisi yma a'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.	Yn rhan o'r rhaglen hyfforddi staff sydd i gael ei datblygu, ar weithredu a defnyddio'r Polisi Iaith Gymraeg yma, dylid rhoi gwybod i'r staff bod angen defnyddio'r Fframwaith Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a welir yn Atodiad E, a'u hyfforddi i ddefnyddio hwn.	O Fedi 04 2017 a phan fo'r angen yn codi
Mae'r Comisiwn yn mynd i gynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth ohebu gyda'r Comisiwn ac mae'n mynd i gofnodi dewis iaith cysylltiadau'r Comisiwn a gweithredu yn unol â hynny.	Dylai'r Comisiwn greu proses ar gyfer cofnodi dewis iaith ei gysylltiadau, cofnodi dewisiadau o'r fath lle maent wedi eu mynegi a gweithredu ar y dewisiadau hynny, gan ddefnyddio cronfa ddata arfaethedig o randdeiliaid.	31 Rhagfyr 2017
Mae'r Comisiwn yn mynd i sicrhau bod unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei chyfeirio at aelod o'r cyhoedd yng Nghymru'n mynd ar bapur pennawd dwyieithog, p'un a yw'r llythyr wedi'i ysgrifennu yn y Gymraeg ai peidio.	Yr holl staff i ddefnyddio'r papur pennawd dwyieithog sydd ar gael yn barod.	Ar waith yn barod, i'w ddefnyddio fel y bo'r angen
	Pan fydd gohebiaeth ysgrifenedig yn cyrraedd yn y Gymraeg, bydd y staff i gyd yn ateb yn y Gymraeg o fewn yr un gofynion amser ag y byddent ar gyfer unrhyw ohebiaeth arall.	O 04 Medi a phan fo'i angen.
Y Comisiwn i ddefnyddio llofnodion e-bost dwyieithog	Mae angen cael cyfieithiad o lofnod e-bost templed, y gall	Medi 01 2017 a phan fo'i

wrth e-bostio rhywun yng Nghymru.	yr holl staff ei ddefnyddio (yn amodol ar newid enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) wrth anfon e-bost at rywun yng Nghymru.	angen
Pan fydd y Comisiwn yn trefnu digwyddiadau caeedig neu gyhoeddus yng Nghymru, bydd y deunyddiau cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg a chroesewir cyfraniadau yn y ddwy iaith.	Dylid cyhoeddi hybysiadau am ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio yng Nghymru, ynghyd â'r gwahoddiadau iddynt, drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg a nodi'n glir bod croeso i bobl gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd. Dylent wahodd y bobl sy'n mynychu i roi gwybod i'r Comisiwn ym mha iaith y maent yn bwriadu cyfrannu, o leiaf 14 diwrnod cyn diwrnod y digwyddiad.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Pan roddir hysbysiad am fwriad i gyfrannu i ddigwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Comisiwn yn darparu gwasanaethau cyfieithu yn y digwyddiad a bydd yn darparu cyfieithiad o'r deunyddiau sydd i gael eu defnyddio gan y bobl sy'n mynd i'r digwyddiad.	Lle mae cyfraniadau i gael eu gwneud yn y Gymraeg, rhaid sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu a deunyddiau ar gael. Dylai'r staff benderfynu ar ddull a ffurf y gwasanaethau cyfieithu sydd i gael eu darparu mewn digwyddiadau ar ôl iddynt ystyried y canllawiau yn Atodiad A.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Hyd yn oed os na dderbynir hysbysiad am fwriad i gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn digwyddiad, mae angen i'r staff ystyried y canllawiau yn Atodiad A y Cynllun Iaith Gymraeg i benderfynu a fyddai'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i gynnig gwasanaethau cyfieithu a/neu gyfieithu deunyddiau beth bynnag.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Lle mae'r arweiniad yn Atodiad A yn awgrymu bod	O 04 Medi a phan fo'n

	angen cyfieithu mewn dull/ffurf penodol, rhaid i'r gwasanaethau yma gael eu darparu a rhaid cadw cofnod corfforaethol o'r penderfyniad hwnnw.	ofynnol
	Yn rhan o'r rhaglen hyfforddi staff sydd i gael ei datblygu am gymhwyso a defnyddio'r Polisi Iaith Gymraeg yma, dylid rhoi gwybod i'r staff bod angen defnyddio'r canllawiau i wasanaethau cyfieithu sydd i'w cael yn Atodiad A.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Pan fydd y Comisiwn yn trefnu digwyddiadau cyhoeddus yn Lloegr (ac yn eu cyhoeddi'n benodol yng Nghymru), lle nad oes digwyddiad cyfatebol i gael ei gynnal yng Nghymru, ac y mae hi'n ofynnol felly i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru adael Cymru i gael y gwasanaeth yma, yna bydd eu deunyddiau hysbysebu yng Nghymru'n ddwyieithog ac yn esbonio'n glir bod croeso i bobl gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd.	Dylid cyhoeddi hybysiadau am ddigwyddiadau sydd wedi eu cynllunio yng Nghymru, ynghyd â'r gwahoddiadau iddynt, drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg a nodi'n glir bod croeso i bobl gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel ei gilydd. Dylent wahodd y bobl sy'n mynychu i roi gwybod i'r Comisiwn ym mha iaith y maent yn bwriadu cyfrannu, o leiaf 14 diwrnod cyn diwrnod y digwyddiad.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Lle rhoddir hysbysiad am fwriad i gyfrannu yn y Gymraeg i ddigwyddiad yn Lloegr, bydd y Comisiwn yn ystyried yr arweiniad a welir yn Atodiad A i benderfynu a fyddai'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i ddarparu'r ddau wasanaeth cyfieithu, neu'r naill neu'r llall, yn y digwyddiad a chyfieithu'r deunyddiau a baratoir gan y Comisiwn i'w defnyddio gan y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad.	Lle derbynir hysbysiad am fwriad i gyfrannu yn y Gymraeg, dylid ystyried yr arweiniad yn Atodiad A i benderfynu a fyddai'n briodol ac yn rhesymol ymarferol i gynnig gwasanaethau cyfieithu a/neu i gyfieithu deunyddiau beth bynnag.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Lle mae'r arweiniad yn Atodiad A yn awgrymu bod angen cyfieithu mewn dull/ffurf penodol, rhaid i'r gwasanaethau yma gael eu darparu a rhaid cadw cofnod	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol

	corfforaethol o'r penderfyniad hwnnw.	
	Yn rhan o'r rhaglen hyfforddi staff sydd i gael ei datblygu am gymhwyso a defnyddio'r Polisi Iaith Gymraeg yma, dylid rhoi gwybod i'r staff bod angen defnyddio'r canllawiau i wasanaethau cyfieithu sydd i'w cael yn Atodiad A.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Rhaid i'r Comisiwn ddefnyddio'r system gategoreiddio yn Atodiad B i benderfynu a ddylid cyfieithu cyhoeddiadau i'r Gymraeg, ac ym mha fformat y bydd y cyhoeddiad a gyfieithir.	Mae'n rhaid i'r staff i gyd ddefnyddio'r system gategoreiddio yn Atodiad B i benderfynu a ddylid cyfieithu cyhoeddiadau i'r Gymraeg, ac ym mha fformat y bydd y cyhoeddiad a gyfieithir.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Lle mae'r arweiniad yn Atodiad A yn awgrymu bod angen cyfieithu, dylid gwneud cyfieithiad yn y ffurf briodol a chadw cofnod corfforaethol o'r penderfyniad hwnnw.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Yn rhan o'r rhaglen hyfforddi staff sydd i gael ei datblygu am gymhwyso a defnyddio'r Polisi Iaith Gymraeg yma, dylid rhoi gwybod i'r staff bod angen iddynt ddefnyddio'r system gategoreiddio yn Atodiad B.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Bydd y fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o'r cyhoeddiad terfynol ar gael o fewn yr un cyfnod amser ag y byddai'r fersiwn Saesneg.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Wrth hysbysebu am Gomisiynwyr newydd ac aelodau newydd o staff, bydd y Comisiwn yn defnyddio deunyddiau hyrwyddo ychwanegol mewn fformat dwyieithog lle bydd y	Wrth hysbysebu am Gomisiynwyr newydd ac aelodau newydd o staff dan yr amgylchiadau yma, bydd deunyddiau hyrwyddo ychwanegol yn cael eu cyhoeddi mewn fformat	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol

rôl honno'n gofyn cyfranogi mewn prosiect penodol Gymraeg.	dwyeithog.	
Mae'r Comisiwn i ddefnyddio deunyddiau hyrwyddo ychwanegol mewn fformat dwyeithog yn ei broses flynyddol o benodi Cynorthwyyr Ymchwilio.	Wrth hysbysebu am Gynorthwyyr Ymchwilio newydd, bydd deunyddiau hyrwyddo ychwanegol yn cael eu cyhoeddi mewn fformat dwyeithog.	O Fedi 04, yn flynyddol, ar ddyddiad sydd i gael ei bennu
Mae'r Comisiwn i bennu unrhyw swyddi allai godi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n fanteisiol, a chanfod y lefel o allu sy'n ofynnol.	Dylai'r staff i gyd gadw golwg ar yr angen i benodi aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg i swyddi penodol.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Mae'r Comisiwn i annog unrhyw aelod o'r staff sydd eisiau dysgu Cymraeg.	Dylai'r tîm gwasanaethau corfforaethol gyhoeddi unrhyw gyfleoedd i staff ddysgu'r Gymraeg os dânt i wybod am rai.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Dylai'r holl reolwyr tîm annog staff sydd eisiau dysgu Cymraeg i wneud hynny yn rhan o'u cynllun datblygu personol.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Mae'r Comisiwn i sicrhau bod yr holl drefniadau a chontractau gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru'n gyson gyda thelerau'r polisi yma ac yn cael eu gweithredu'n unol â hynny.	Dylai'r tîm gwasanaethau corfforaethol, wrth fynd i mewn i drefniadau cytundebol gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethu i'r cyhoedd yng Nghymru, sicrhau bod y trydydd parti perthnasol yn gyfarwydd â thelerau'r polisi yma a'i oblygiad i ddarparu gwasanaethu o'r fath mewn ffordd sy'n gyson â'r telerau hynny.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
	Dylai grŵp Cymru Comisiwn y Gyfraith fonitro cydymffurfiad trydydd partïon gyda'r polisi yma.	O 04 Medi a phan fo'n ofynnol
Mae Prif Swyddog Gweithredol y Comisiwn i	Dylai grŵp Cymru Comisiwn y Gyfraith fonitro'r	O 04 Medi, ddwywaith y

oruchwylio gweithrediad a phrosesau monitro'r polisi yma.	cydymffurfriad gyda'r polisi yma ddwywaith y flwyddyn ac adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol.	flwyddyn
Mae Prif Swyddog Gweithredol y Comisiwn i ystyried unrhyw gwynion a dderbynir yn ymwneud â diffyg cydymffurfriad â'r polisi a chymryd camau gweithredu lle bo rhaid i sicrhau cydymffurfriad.	Dylid cyfeirio pob cwyn a dderbynir at bennaeth y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol yn y lle cyntaf.	O 04 Medi a phan fo'i angen.
	Dylid tynnu sylw'r Prif Swyddog Gweithredol at unrhyw gwynion o'r fath (o fewn 5 diwrnod gwaith) a dylai'r Prif Swyddog Gweithredol ymdrin â'r gŵyn (o fewn 20 diwrnod gwaith) ac mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Gweithredol gadw cofnod o bob cwyn a dderbynir sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfriad â'r Cynllun Iaith Gymraeg, ynghyd â chofnod o'r penderfyniad a wneir ac unrhyw gam gweithredu a gymerir wedi i'r Prif Swyddog Gweithredol ystyried y gŵyn.	O Fedi 04 a phan fo'n ofynnol
Y Comisiwn i sicrhau bod y rheolwyr tîm i gyd yn cymryd y cyfrifoldeb am weithredu a monitro'r polisi mewn perthynas â gwaith eu tîm.	Dylai'r Rheolwyr Tîm weithredu'r polisi yma a monitro gweithrediad y polisi yma o fewn eu timau.	O Fedi 04, yn barhaus
Yn nhrydedd blwyddyn gweithrediad y polisi, bydd y Comisiwn yn paratoi adroddiad gwerthuso sy'n gwerthuso ac yn asesu cynnydd y polisi o ran ei weithrediad a'r cydymffurfriad ag o.	Yn nhrydedd blwyddyn gweithrediad y polisi, rhaid paratoi adroddiad gwerthuso. Bydd angen cyhoeddi hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Medi 2020
	Yn dilyn yr adroddiad yma, rhaid adolygu a diwygio'r polisi fel y bo'n briodol.	Medi 2020
Mae'r Comisiwn i gyfrannu at, a darparu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad Monitro Blynnyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiynydd y Gymraeg pan fo'n ofynnol.	Cyfrannu at, a darparu gwybodaeth i Adroddiad Monitro Blynnyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiynydd y Gymraeg pan fo'n ofynnol.	Ar waith yn barod, bob blwyddyn

APPENDIX E- FFRAMWAITH ASESU'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG (WLIA)

Wrth lunio polisi a/neu baratoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth newydd:

- (1) i bob prosiect dylai Staff y Comisiwn ystyried a oes angen cwblhau asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg (WLIA). I helpu i benderfynu hynny, dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

Y Prif Ystyriaethau	Colofn A	Colofn B	Colofn C
At beth y defnyddir y ddogfen?	I gyfraith Cymru'n unig	I gyfraith Cymru a Lloegr	I gyfraith Lloegr yn unig
Pwy yw'r gynulleidfa darged?	Siaradwyr Cymraeg yn benodol neu aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru	Aelodau o'r cyhoedd, neu sectorau o'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr (p'un a yw'r prosiect drwy'r Deyrnas Unedig i gyd neu wedi'i gyfyngu i Gymru, Lloegr a'r Alban, i Loegr, Cymru a Gogledd Iwerddon neu i Gymru a Lloegr)	Aelodau'r cyhoedd yn Lloegr a/neu yr Alban a/neu Gogledd Iwerddon yn unig, neu unigolion arbennig sy'n cynrychioli meysydd penodol yn unig

- (2) Os yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau uchod i'w gael yng ngholofn A yna dylid cwblhau WLIA.
- (3) Os yw'r ateb i'r naill gwestiwn neu'r llall wedi'i gynnwys fel arall yng ngholofn B, yna, i benderyfnu a ddylid cwblhau WLIA, rhaid edrych a yw'r polisi neu'r newid deddfwriaethol sy'n cael ei ystyried yn debygol o gael:
 - (a) Effaith anghyfartal ar aelodau'r cyhoedd yng Nghymru; neu
 - (b) ar Gymry Cymraeg yn gyffredinol.
- (4) Os yw'r ateb i'r ddau gwestiwn am y prif ystyriaethau i'w cael yng ngholofn C, yna nid oes angen cwblhau WLIA.
- (5) Dylai'r cofnod corfforaethol ar gyfer y prosiect nodi a gwblhawyd WLIA ai peidio. Dyma'r cwestiynau i'w hystyried wrth wneud WLIA:

- (a) Beth yw'r effeithau (yn bositif a/neu'n niweidiol) ar) a welsoch chi ar yr iaith Gymraeg h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau sy'n siarad Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg?
 - (b) Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr Cymraeg ac anghenion dysgwyr yn derbyn sylw? Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau hoffech chi eu gofyn i randdeiliaid am faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg? I ba raddau mae grwpiau sydd â diddordeb yn yr iaith Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?
 - (c) Beth yw'r effaith debygol a ragwelir yn gyffredinol ar yr iaith Gymraeg os gweithredir y polisi yma ar sail yr asesiad o effaith/asesiad risg? Sut allwch chi wella'r canlyniadau posibl i'r iaith Gymraeg?
- (6) Ar ôl cwblhau'r WLIA, rhaid cadw cofnod o'i ganlyniadau, yn ogystal â chofnod o'r effaith y mae'r rhain wedi'u cael ar ddatblygiad polisiâu/drafftio deddfwriaethol sydd dan ystyriaeth: dim newid mawr, newidiwyd y datblygiad/drafftio i ddiddymu effeithiau, parhawyd â'r datblygu/drafftio gyda mesurau i leihau effeithiau, neu rhoddwyd stop ar y datblygiad/drafftio.

